

ATODLEN 5B Erthygl 24B(3)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 24B(3) SYDD I'W ARDDANGOS DRWY GYDOL YR AMSER TRA CYFLAWNIR Y DATBLYGIAD

RHAN 1

Datblygiad yn (a).....

Hysbysir drwy hyn fod caniatâd cynllunio (b).....

wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau (c) i (d).....

ar (e).....

gan (f).....ac mae'r datblygu bellach wedi cychwyn.

Mae'r datblygiad yn cynnwys (g)..... a dangosir ef fel yr ardal sydd wedi ei hamlinellu/liliwio ar y plan a atodir. Mae'r plan wedi ei luniadu yn unol â'r raddfa a nodir arno, yn dangos cyfeiriad y gogledd ac mae'n ffurfio, ac yn cael ei arddangos fel, RHAN 2 o'r hysbysiad hwn.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y caniatâd cynllunio, gan gynnwys yr amodau, os oes rhai, y rhoddwyd y caniatâd yn ddarostyngedig iddynt, yn ystod unrhyw oriau rhesymol yn (h).....

Rhaid i berson sy'n cyflawni datblygu mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad mawr arddangos y ffurflen hon yn y man y cyflawnir y datblygu neu gerllaw iddo, drwy gydol yr amser y gwneir y gwaith datblygu. Rhaid arddangos y ffurflen yn unol ag erthygl 24B(3) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Cyn cychwyn datblygiad mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad mawr, rhaid i berson roi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol ar y ffurflen yn Atodlen 5A i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Nodiadau

- a) Mewnoder cyfeiriad neu ddisgrifiad o leoliad y datblygiad.
- b) Mewnoder rhif cyfeirnod y cais cynllunio perthnasol.
- c) Dileer "yn ddarostyngedig i amodau" os nad yw'r caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i unrhyw amodau.
- d) Mewnoder enw a chyfeiriad y datblygwr.
- e) Mewnoder y dyddiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio.
- f) Mewnoder yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru.
- g) Mewnoder disgrifiad o'r datblygiad.
- h) Mewnoder cyfeiriad yr awdurdod cynllunio.